**Y PANEL PENODIADAU ARBENNIG**
**(PENNAETH HAMDDEN, LLYFRGELLOEDD, IEUENCTID A CHYMUNEDAU)**

Cofnodion cyfarfod y Panel Penodiadau Arbennig (Pennaeth Hamdden, Llyfrgelloedd. Ieuenctid a Chymunedau) a gynhaliwyd yn Ystafell y Cabinet, Neuadd y Sir, Rhuthun, dydd Gwener 8 Hydref am 3.00 p.m.

**PRESENNOL**

Y Cynghorwyr P A Dobb, I A Gunning, C Hughes, M M Jones a B Smith.

**HEFYD YN BRESENNOL**

Y Prif Weithredwr, Y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Dysgu Gydol Oes; Pennaeth Strategaeth HR, Y Swyddog Personél (A Dyke) a Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol ynghyd ag Ian Jeffcott (Ymgynghorydd).

**YMDDIHEURIADAU**

Nid oedd yr un.

**355 PENODIAD CADEIRYDD**

***PENDERFYNWYD*** *y dylai'r Cynghorydd I Gunning gael ei benodi'n Gadeirydd y Panel.*

**356 EITEMAU BRYS**

Nid oedd yr un.

**GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD** yn unol ag Adran*100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 y dylai'r Wasg a'r Cyhoedd gael eu gwahardd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes canlynol ar y sail y gallai eu presenoldeb arwain at ddatgeliad tebygol gwybodaeth eithriedig fel y caiff honno ei diffinio ym Mharagraffau 12 ac 13 o Ran 4, Sgediwl 12 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.*

**357 PENODIAD PENNAETH HAMDDEN, LLYFRGELLOEDD, IEUENCTID A CHYMUNEDAU**

Rhoddodd y Panel ystyriaeth i nifer o gwestiynau atodol oedd i'w gofyn i'r ymgeisydd a chytuno arnynt cyn mynd ymlaen gyda'r cyfweliad..
Rhoddodd yr ymgeisydd gyflwyniad am destun y cytunwyd arno cyn y cyfarfod ac i ddilyn gofynnodd aelodau'r Panel nifer o gwestiynau ynghylch y cyflwyniad. Yna gofynnwyd nifer o gwestiynau atodol i'r ymgeisydd.

Wedi i deilyngdod yr ymgeisydd gael eu hystyried,

***PENDERFYNWYD*** *y dylid cynnig swydd Pennaeth Hamdden, Llyfrgelloedd, Ieuenctid a Chymunedau i Mr Jamie Groves.*

*Derbyniodd Mr Jamie Groves y cynnig a chafodd ei longyfarch ar ei benodiad.*

Daeth y cyfarfod i ben am 4.55 p.m.

********